Mabwysiadu plentyn

Beth yw mabwysiadu

Pan fyddwch chi'n mabwysiadu plentyn rhoddir **gorchymyn llys** (a elwir yn orchymyn mabwysiadu) sy'n eich gwneud yn rhiant cyfreithiol i'r plentyn. Mae holl hawliau cyfreithiol y teulu biolegol yn dod i ben. Mae'r gorchymyn mabwysiadu yn barhaol ac ni ellir ei wrthdroi. Fel arfer bydd y plentyn yn cymryd eich cyfenw chi.

Mae mabwysiadu yn wahanol i faethu sydd hefyd yn lleoli plentyn i fyw yn rhywle sy'n wahanol i'w teulu biolegol. Sut bynnag, nid yw rhoddi gorchymyn llys yn rhan o faethu ac ni fwriedir iddo fod bob amser yn barhaol.

Pwy sy'n trefnu mabwysiadu

Yn arferol rhaid i fabwysiadau gael eu trefnu gan **asiantaethau mabwysiadu** cymeradwy. Fel arfer awdurdodau lleol ydyw'r rhain ond fe allant fod yn sefydliad gwirfoddol hefyd. Mae asiantaethau mabwysiadu yn dewis pobol i fabwysiadu plant. Rhaid iddynt wneud yn siŵr fod pobol sydd am fabwysiadu yn cwrdd â gofynion cyfreithiol arbennig. Mae ganddynt eu polisïau eu hunain hefyd a ddefnyddir ganddynt i geisio paru pobol sydd am fabwysiadu â'r plant sydd ar gael.

Pwy sy'n gallu mabwysiadu plentyn

Terfynau oed

Os ydych chi am fabwysiadu plentyn, rhaid i chi fel arfer fod yn 21 oed o leiaf.

Nid oes terfyn oed uchaf cyfreithiol. Sut bynnag, rhaid i asiantaethau mabwysiadu fod yn hyderus y bydd gennych yr egni sydd ei angen i fagu plant ymdrechgar a bod eich iechyd yn ddigon da i allu cynnig cartref sefydlog.

Cyplau

Gall unrhyw gwpl sy'n byw gyda'i gilydd wneud cais am fabwysiadu plentyn. Mae hyn yn cynnwys partneriaid heterorywiol a rhai o'r un rhyw sy'n byw gyda'i gilydd, yn ogystal â phobol sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil.

Mae'r mwyafrif o asiantaethau yn disgwyl i bobol fod wedi byw gyda'i gilydd am sawl blwyddyn cyn gwneud cais am fabwysiadu. Os ydych chi wedi bod yn briod neu fyw gyda'ch gilydd am amser hir, efallai y bydd yr asiantaeth am drafod pam eich bod wedi penderfynu mabwysiadu nawr.

Pobol sengl

Mae gennych hawl i fabwysiadu os ydych yn berson sengl. Sut bynnag, yn anaml iawn y bydd asiantaethau yn derbyn cais sengl am fabanod neu blant ifanc iawn. Os ydych chi'n berson sengl, naill ai'n ddyn neu fenyw, yn lesbiad, yn hoyw neu'n heterorywiol, mae'n fwy tebygol y cewch eich ystyried ar gyfer plentyn ag anghenion arbennig. Gall hyn gynnwys plentyn hŷn neu anabl.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Pobol sydd wedi ysgaru
Fe allwch chi wneud cais am fabwysiadu plentyn os ydych wedi ysgaru.

Os oes gennych blant eraill
Fe allwch wneud cais am fabwysiadu os oes gennych blant eich hun yn barod. Fel arfer mae'n well gan asiantaethau baru plant hŷn a'r rheini sydd ag anawsterau emosiynol neu ymddygiad gyda phobol sydd â phlant eu hunain yn barod.

Euogfarnau blaenorol
Chewch chi ddim mabwysiadu os ydych wedi'ch dyfarnu'n euog, neu wedi cael rhybudd am drosedd yn ymwneud â phlant (oni bai, yn Lloegr, eich bod o dan 18 oed ar y pryd). Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw aelod o'ch cartref sydd yn 18 oed a drosodd. Os ydych wedi'ch dyfarnu'n euog neu wedi cael rhybudd am unrhyw fath arall o drosedd, yn gyfreithiol fydd hyn ddim yn eich rhwystro rhag gallu mabwysiadu plentyn.

Statws cyflogaeth
Nid oes rhaid i chi fod yn gyflogedig, na chael lefel arbennig o incwm i fabwysiadu plentyn. Sut bynnag, fe fydd asiantaeth fabwysiadu am wybod a ydych yn gallu ymdopi ar eich incwm. Mae'n rhaid i chi gael yr hyn mae'r asiantaeth yn ei ystyried yn incwm digonol i ddarparu ar gyfer anghenion y plentyn, er bod lwfansau mabwysiadu ar gael.

Iechyd
Pan fyddwch chi'n gwneud cais am fabwysiadu plentyn, disgwylir i chi yn ôl y gyfraith gael archwiliad meddygol. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am hyn. Mae'n annhebygol y cewch eich derbyn i fabwysiadu babi os oes gennych afiechyd difrifol, ond fe allech gael eich ystyried ar gyfer mabwysiadu plentyn hŷn. Bydd asiantaethau am sicrhau hyd y gellir y byddwch yn para'n fyw o leiaf hyd nes bydd y plentyn yn cyrraedd oedolaeth.

Lleoliad gyda rhieni o'r un hil
Nid oes gofyniad cyfreithiol fod plant yn cael eu lleoli gyda rhieni o'r un hil a nhw'u hunain, er argymhellir hyn fel yr arfer gorau. Mae gan y mwyafrif o asiantaethau bolisi o geisio'n gyntaf leoli plant gyda theuluoedd o'r un tarddiad ethnig â'r plentyn.

Sut i wneud cais am fabwysiadu plentyn

Os ydych yn ystyried mabwysiadu plentyn, fe allwch ddewis mynd drwy naill ai asiantaeth wirfoddol neu wasanaeth mabwysiadu a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Nid oes rhaid i hwn fod yr awdurdod lleol lle rydych yn byw, er bod gan bob asiantaeth rai cyfyngiadau daearyddol. Fe allwch wneud ymholiadau gyda mwy nag un asiantaeth, ond dim ond i un ohonynt y gallwch chi wneud cais.

Fe ddylech wneud eich ymholiad yn ysgrifenedig, gan roi eich oedran, tarddiad ethnig, swydd, a, lle bo'n berthnasol, crefydd, hyd y briodas a manylion am unrhyw blant eraill. Fe ddylech chi nodi'r math o blentyn yr hoffech ei fabwysiadu, er enghraifft, babi neu blentyn hŷn. Os ydych yn barod i ystyried ystod eang o blant, mae'n fwy tebygol y cewch eich derbyn fel 'rhiant mabwysiadol'.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Fe allwch wneud cais i fabwysiadu plentyn arbennig hefyd, er enghraifft, un sy wedi'i hysbysebu gan asiantaeth fabwysiadu. Yn yr achos hwn, fe'ch ystyrir ar gyfer mabwysiadu'r plentyn hwn yn unig.

Y broses fabwysiadu

Unwaith y byddwch wedi gwneud cais i asiantaeth fabwysiadu, bydd yr asiantaeth yn ystyried os ydych yn gymwys i fod yn rhiant mabwysiadol ai peidio.

Eich cais wedi'i wrthod
Os gwrthodir eich cais, fe allwch ofyn i'r asiantaeth fabwysiadu i ail ystyried eu penderfyniad. Fe ddylech ysgrifennu atynt i ofyn hyn gan roi rhesymau pam. Ar y llaw arall, fe allwch chi wneud cais i'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol am adolygiad annibynnol. Fe allech chi hefyd wneud cais i asiantaeth arall.

Eich cais wedi'i dderbyn
Unwaith y cymeradwyir eich cais, oni bai eich bod wedi gwneud cais am blentyn arbennig, fe all gymryd amser hir cyn y deuir o hyd i blentyn addas. Unwaith y bydd yr asiantaeth wedi dod o hyd i blentyn addas, fe fyddwch yn cwrdd â'r gweithiwr cymdeithasol i ddysgu mwy am y plentyn. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn penderfynu eich paru â'r plentyn neu beidio.

Fe allwch wneud cais i'r llys am orchymyn mabwysiadu cyn gynted ag y bydd y plentyn yn dechrau byw gyda chi, ond fydd dim gwrandawiad i'ch cais am ddeng wythnos o leiaf. Rhaid bod plentyn o dramor (gweler isod) wedi byw gyda chi am chwe mis o leiaf. Fel arfer bydd yn rhaid i chi dalu ffî fechan am wneud cais am orchymyn mabwysiadu.

Fel arfer ni ellir gwneud gorchymyn mabwysiadu os nad yw'r bobol sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol, er enghraifft, mam y plentyn, yn cytuno fod y plentyn i'w fabwysiadu. Os ydyn nhw'n ddigon hen, rhaid cymryd barn y plentyn i ystyriaeth hefyd.

Unwaith y bydd y gorchymyn mabwysiadu wedi'i roi, daw'r plentyn yn gyfrifoldeb cyfreithiol i chi a daw hawliau cyfreithiol y teulu biolegol i ben. Weithiau'n eithriadol gall y llys wneud gorchymyn arall ar yr un pryd sy'n rhoi hawl i aelodau y teulu biolegol i gysylltu â'r plentyn.

Mabwysiadu gan berthynas, llysriant neu rieni maeth preifat

Mae yna rai amgylchiadau lle gallwch chi fabwysiadu heb fynd trwy asiantaeth fabwysiadu:

- os ydych chi'n perthyn i'r plentyn ac mae'r plentyn wedi bod yn byw gyda chi am dair blynedd o leiaf yn ystod y pum mlynedd sy'n union o flaen y gorchymyn mabwysiadu
- os ydyw'r plentyn yn cael ei fabwysiadu gan lysriant ac mae'r llysriant wedi bod yn byw gyda'r plentyn am chwe mis o leiaf (mae 'llys riant' yn cynnwys partner sifil)

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- os ydych chi'n rhiant maeth preifat ac mae'r plentyn wedi bod yn byw gyda chi am dair blynedd o leiaf yn ystod y pum mlynedd sy'n union o flaen y gorchymyn mabwysiadu.

Mabwysiadu plentyn o dramor

Os ydych chi am fabwysiadu plentyn o wlad arall, fe ddylech chi gysylltu â'ch awdurdod lleol neu asiantaeth mabwysiadu cymeradwy. Fe ddylech chi hefyd ddarganfod os ydyw'r wlad yr ydych am fabwysiadu oddi yno yn caniatáu mabwysiadau o wledydd eraill, trwy gysylltu â llysgenhadaeth y wlad.
Fe allwch gael mwy o wybodaeth a chyngor oddi wrth Linell Gymorth Canolfan Mabwysiadu o Wledydd Eraill: 08705 168 742. Gwefan: www.icacentre.org.uk

Cymorth pellach

Adoption UK
Sefydliad hunan gymorth gwirfoddol ydyw Adoption UK sy'n cynnig cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth i deuluoedd sydd am fabwysiadu, neu sydd eisoes wedi mabwysiadu:
Tel: 01295 752240
Llinell gymorth: 0844 848 7900 (Llun - Gwener, 10.00 - 4.00)
Gwefan: www.adoption.org.uk

Llinell wybodaeth Mabwysiadu
Mae Llinell Wybodaeth Mabwysiadu yn darparu gwybodaeth a chyngor ynglŷn â phob agwedd o faethu a mabwysiadu:
Tel: 0800 783 4086 (rhadffôn)
Gwefan: www.adoption.org.uk

Be my Parent
Gwasanaeth dod o hyd i deulu ydyw *Be My Parent* o Gymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF). Mae wedi'i anelu at ddarpar fabwysiadwyr a gofalwyr maeth ac mae'n cynnwys proffiliau, lluniau a fideos o blant o'r DU sy'n aros am deuluoedd newydd, ynghyd â gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â dod yn rhiant mabwysiadol neu faeth.
Tel: 020 7421 2666
Ffacs: 020 7421 2660
Gwefan: www.bemyparent.org.uk

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 20 Hydref 2009, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr